# Gwrando: Grŵp ffocws Youth Music

Ydych chi'n 18–25 oed ac yn awyddus i ddatblygu gyrfa yn y diwydiannau cerddoriaeth ac mae'n well genych chi gyfathrebu yn Gymraeg? Mae Youth Music yn chwilio am bobl greadigol rhwng 18 a 25 oed i gymryd rhan mewn grŵp ffocws â thâl. Hoffem glywed gennych am sut y gallwn gefnogi siaradwyr Cymraeg yn well drwy ein cyllid a'n cymuned Youth Music NextGen.

## Grŵp Ffocws 1: Wyneb yn wyneb (Abertawe)

**Dyddiad:** dydd Mawrth 19eg Fedi 2023
**Amser:** 15:00 to 16:30
**Lleoliad:** The Bunkhouse, 24 Park Street, Abertawe, SA1 3DJ
**Ffi:** £50 (yn ogystal â chostau teithio hyd at £50)
**Dyddiad cau ar gyfer cesiadau:** 9:00 y.b. dydd Mawrth 29ain Awst 2023

## Grŵp Ffocws 2: Ar-lein (Zoom)

**Dyddiad:** dydd Mercher 20fed Fedi 2023
**Amser:** 15:00 to 16:30
**Ffi:** £50
**Dyddiad cau ar gyfer cesiadau:** 9:00 y.b. dydd Mawrth 29ain Awst 2023

## Ynglŷn â'r grŵp ffocws

Mae Youth Music yn elusen genedlaethol sydd wedi'i lleoli yn Llundain. Yn ddiweddar, mae cyllid gan People's Postcode Lottery wedi galluogi Youth Music i ehangu ein cefnogaeth i bobl ifanc greadigol ledled y DU.

Fel sefydliad sy'n anelu at arwain o ran cynhwysiant, amrywiaeth, tegwch a hygyrchedd, hoffem ddeall a fyddai cyflwyno rhywfaint o gynnwys Cymraeg wedi'i ymchwilio a'i gynllunio'n feddylgar i'n cyfathrebiadau yn ddefnyddiol i siaradwyr Cymraeg ifanc. Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn ar hyn.

Bydd y grŵp ffocws yn cael ei arwain gan aelodau uniaith Saesneg o'r tîm Youth Music. Fodd bynnag, bydd cyfryngwr sy'n siarad Cymraeg yn bresennol a bydd croeso i gyfranogwyr drafod eu syniadau yn Gymraeg neu Saesneg.

Mae lleoedd yn y grŵp ffocws yn gyfyngedig, ond os na chewch eich dewis y tro hwn, cewch gyfle i roi eich adborth trwy arolwg ar-lein.

Peidiwch â gwneud cais am Grŵp Ffocws 1 os ydych yn gwybod na fyddwch yn gallu bod yn

bresennol wyneb yn wyneb.

## Pwy rydym yn chwilio amdano

Rydym yn chwilio am bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed (neu hyd at 30 os ydych yn ystyried eich bod yn Niwroamrywiol, yn fyddar ac/neu'n anabl) sydd:

- Eisiau datblygu gyrfa yn y diwydiannau cerddoriaeth.
- Y mae’n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg.

Bydd cymryd rhan yn y grwpiau ffocws yn cynnwys ymateb i awgrymiadau a chwestiynau gan staff Youth Music ynghyd â grŵp o gyd-greadigolion sy'n siarad Cymraeg.

## Sut i wneud cais

Fel rhan o'r broses ymgeisio, mae'n ofynnol i chi wneud y canlynol:

- Cwblhau a chyflwyno cais ar-lein.
- Llenwi ffurflen cyfle cyfartal dienw.

Yn anffodus, fel tîm bach heb unrhyw siaradwyr Cymraeg, ni allwn dderbyn ceisiadau yn yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, mae hyn yn rhan o'r rheswm pam ein bod am redeg y grwpiau ffocws hyn, er mwyn deall yn well yr hyn y gallwn ei wneud i gefnogi siaradwyr Cymraeg o fewn ein gallu sefydliadol.

## Llinell amser ymgeisio

Dyddiad cau ar gyfer cesiadau: 9:00 y.b. dydd Mawrth 29ain Awst 2023

Hysbysiad o'r canlyniad: Dydd Gwener 1 Medi 2023

Oherwydd y nifer uchel o geisiadau yr ydym yn disgwyl eu derbyn, mae'n ddrwg gennym na fyddwn yn gallu cynnig adborth manwl ac unigol i ymgeiswyr na wahoddir i gymryd rhan. Fodd bynnag, os nad ydych yn llwyddiannus yn eich cais, byddwch yn dal i allu cymryd rhan trwy arolwg ar-lein.

## About Youth Music

We're the UK's leading young people's music charity. We believe that every young person should have the chance to make, learn and earn in music.

Yet our research shows that many can't because of who they are, where they're from or what they're going through.

Through our insights, influence, and investment in grassroots organisations, we make sure more young people aged 0-25 can make, learn and earn in music nationwide.

Youth Music is a national charity funded thanks to the National Lottery via Arts Council England, players of People's Postcode Lottery and support from partners, fundraisers and donors.

Find out more about our work on the Youth Music Website and read more about our funding programmes on the Youth Music Network.

## Equal opportunities

Youth Music is an equal opportunities and Living Wage employer. We are committed to attracting, recruiting and retaining diverse candidates. It's important that our team reflects the communities we serve.

We especially welcome applications from people from under-represented groups and are committed to making adjustments that would support you in applying for or carrying out the role. We are currently under-represented by people from within the Trans community, people from the LGBTQ+ community, Disabled people and people from the Global Majority. If you are Disabled and your application meets the minimum criteria for the post, we will offer you a guaranteed interview.

Please contact constance.dingri@youthmusic.org.uk if you have a disability and/or access requirements or if you wish us to consider any other reasonable adjustments to ensure the recruitment process is fully accessible.

THE NATIONAL FOUNDATION FOR YOUTH MUSIC
STUDIO LG01, THE PRINT ROOMS
164-180 UNION STREET, LONDON, SE1 0LH

REGISTERED CHARITY NUMBER: 1075032
LIMITED COMPANY NUMBER: 03750674